Powys

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 17)**

**Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**

**Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (Diwygiad) (Lloegr a Chymru) 2007**

**Hysbysiad o Adneuo Cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol**

**Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026**

Mae Cyngor Sir Powys wedi paratoi dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer y cynllun uchod. Bydd y CDLl, ar ôl ei fabwysiadu, yn disodli'r cynllun datblygu presennol a bydd yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ar gyfer Powys gyfan (ac eithrio Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog/Eryri).

Mae'r dogfennau CDLl yn cynnwys y "CDLl adnau", yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr Adroddiad Amgylcheddol, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Adroddiad Ymgynghori cychwynnol ynghyd â dogfennau atodol eraill.

Bydd copïau o'r dogfennau ar gael i'r cyhoedd eu gweld yn rhad ac am ddim o **ddydd Llun 8 Mehefin 2015** yn y swyddfeydd canlynol Cyngor Sir Powys:

| | | |
|---|---|---|
| Neuadd y Sir, Llandrindod | Llun i Iau 8.30am - 5pm | Gwe 8.30am – 4.30pm |
| Y Gwalia, Llandrindod | Llun i Iau 9am – 5pm | Gwe 9am – 4.30pm |
| Neuadd Brycheiniog, Aberhonddu | Llun i Iau 8.30am - 5pm | Gwe 8.30am – 4.30pm |
| Neuadd Maldwyn, Y Trallwng | Llun i Iau 9am - 5pm | Gwe 9am – 4.30pm |

Maent hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.powys.gov.uk (cliciwch ar ymgynghoriadau). Hefyd, bydd y dogfennau'n cael eu dosbarthu i'r safleoedd Llyfrgell + a Mannau Gwasanaethau Cwsmer ym Mhowys.

Dylid anfon sylwadau (gan gynnwys gwrthwynebiadau) o ran y CDLl adnau, yn ysgrifenedig at Dîm Cynllun Datblygu Lleol Powys, Cyngor Sir Powys, Y Gwalia, Ffordd Ithon, Llandrindod, Powys. LD1 6AA neu drwy neges e-bost i ldp@powys.gov.uk neu ar-lein yn www.powys.gov.uk/ldp cyn **4.30pm ar ddydd Llun 20 Gorffennaf 2015.** Dylai eich sylwadau (gan gynnwys gwrthwynebiadau) nodi'r materion penodol y maen nhw'n cyfeirio atynt. Dylai gwrthwynebiadau hefyd nodi'r newid rydych am ei weld, ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiadau a'r prawf(profion) cadernid sy'n berthnasol iddynt.

Dylai unrhyw sylwadau sy'n cynnig safle newydd neu safle estynedig ar gyfer datblygiad neu safle a gafodd ei wrthod gan yr Awdurdod gynnwys gwybodaeth ar sut mae'r safle'n cyd-fynd ag arfarniad cynaliadwyedd y cynllun, yr adroddiad amgylcheddol a chynnwys y gymuned.

Gallwch hefyd gynnwys cais yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei anfon i gyfeiriad penodol pan fydd y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer archwiliad annibynnol a/neu fod y cynllun wedi ei fabwysiadu.

Bydd sylwadau a wneir yn unol â'r hysbysiad hwn (h.y. wedi'u cyflwyno'n briodol) yn cael eu hystyried gan Arolygydd annibynnol a benodwyd i archwilio cadernid y cynllun. **(Noder mai dim ond sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn (8 Mehefin 2015 – 20 Gorffennaf 2015) fydd yn cael eu trosglwyddo ymlaen trwy broses y Cynllun Datblygu Lleol. Ni fydd unrhyw sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad blaenorol (ar Ddrafft Adnau CDLl Powys, Gorffennaf 2014 yn cael eu trosglwyddo ymlaen). Os ydych yn credu fod unrhyw sylwadau a wnaethoch y tro diwethaf dal yn berthnasol, rhaid i chi gyflwyno'r rhain eto gan ddefnyddio'r Ffurflen Sylwadau Cam Adnau a'r nodyn cyfarwyddyd diweddaraf.**

Dim ond y rheiny sy'n gwneud sylwadau gyda'r nod o newid y CDLl adnau (h.y. gwrthwynebwyr) a gyflwynodd eu sylwadau 'yn briodol' sydd â'r hawl i ymddangos o flaen ac i gael eu clywed gan yr Arolygydd yn yr Archwiliad. (Adran 64 (6) o'r Ddeddf 2004).

**Planning and Compulsory Purchase Act 2004**

**The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (Regulation 17)**

**The Environmental Assessment of Plans and Programmes (Wales) Regulations 2004**

**The Conservation (Natural Habitats, &c.) (Amendment) (England and Wales) Regulations 2007**

**Notice of Deposit of Proposals for a Local Development Plan**

**Powys Local Development Plan 2011-2026**

Powys County Council has prepared Local Development Plan (LDP) documents for the above plan. The LDP will, upon adoption, replace the current development plan and form the basis for decisions on land use planning for Powys (excluding areas within either the Brecon Beacons or Snowdonia National Parks).

The LDP documents include the "deposit LDP", the Sustainability Appraisal Report, the Environmental Report, the Habitats Regulations Assessment, an initial Consultation Report together with other supporting documents.

Copies of the documents will be available for public inspection free of charge from **Monday 8th June 2015** at the following Powys County Council offices:

| | | |
|---|---|---|
| County Hall, Llandrindod Wells | Mon to Thurs 8.30am - 5pm | Fri 8.30am – 4.30pm |
| The Gwalia, Llandrindod Wells | Mon to Thurs 9am – 5pm | Fri 9am – 4.30pm |
| Neuadd Brycheiniog, Brecon | Mon to Thurs 8.30am – 5pm | Fri 8.30am – 4.30pm |
| Neuadd Maldwyn, Welshpool | Mon to Thurs 9am - 5pm | Fri 9am – 4.30pm |

They are also available on the Council's website at www.powys.gov.uk (click on Consultations). Additionally, the documents will be circulated to all Library + sites and Customer Service Points in Powys.

Representations (including objections) in respect of the deposit LDP, should be sent in writing to The Powys Local Development Plan team, Powys County Council, The Gwalia, Ithon Road, Llandrindod Wells, Powys. LD1 6AA, via email to ldp@powys.gov.uk or on-line via www.powys.gov.uk/ldp **before 4.30pm on Monday 20th July 2015**. Representations (including those taking the form of objections) should specify the matters to which they relate. Objections should also specify the change sought, the grounds on which they are made and the test(s) of soundness to which they relate.

Any representation proposing a new or extended site for development or one that proposes to incorporate a site rejected by the Authority should include information on the site's compatibility with the plan's sustainability appraisal, environmental report and community involvement.

Representations may also be accompanied by a request to be notified at a specified address that the LDP has been submitted to the Welsh Government for independent examination and/or the adoption of the plan.

Representations made in accordance with this notice (i.e. 'duly made') will be considered by an independent Inspector appointed to examine the soundness of the plan. **(Please note, only representations submitted during this consultation period (8th June 2015 - 20th July 2015) will be carried forward through the Local Development Plan process. Any representations that were made in the previous consultation (on the Powys LDP Deposit Draft, July 2014) will not be carried forward). If you consider that any representations you made last time are still relevant, you must submit these again using the latest Deposit Stage Representation Form and guidance note.**

Only those making representations seeking to change the deposit LDP (i.e. objectors) whose representations were 'duly made' have the right to appear before and be heard by the Inspector at the Examination. (Section 64 (6) of the 2004 Act)